

Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i'r argymhellion yn Adroddiad Cyfraith Mark Allen: Diogelwch Dŵr ac Atal Boddi.

Mae gormod o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â dŵr yn dal i ddigwydd yng Nghymru, ac yn anffodus marwolaethau sy'n gysylltiedig â dŵr. Bydd yr argymhellion a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn yn gwella Strategaeth Atal Boddi Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020 gan Diogelwch Dŵr Cymru.

Mae gan Gymru nifer o nodweddion dŵr mewndirol eiconig a thraethau Baner Las sy'n denu lluo o ymwelwyr bob blwyddyn. Rydym yn cefnogi gweithgareddau dŵr yn llawn ac yn annog pawb i fwynhau'r dŵr mewn ffordd ddiogel.

Mae twf sylweddol o ran gweithgareddau awyr agored wedi bod yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae ein gwerthfawrogiad o'n mannau awyr agored wedi ei atgyfnerthu yn sgil pandemig COVID. Mae mannau awyr agored yn bwysig i'n hiechyd a'n lles corfforol a meddyliol.

Drwy godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch dŵr ledled Cymru, y gobraith yw y bydd mwy o bobl yn fwy gwybodus ac yn gallu barnu peryglon yr hyn sydd o'u cwmpas. Gall lleoedd yng Nghymru fod yn anghysbell iawn, ac mae hynny'n creu trafferthion ynddo'i hun, gan gynnwys yr effaith ar ein gwasanaethau achub a'n Gwasanaeth Iechyd.

Hoffwn ddiolch i holl aelodau'r Pwyllgor Deisebau am adroddiad Cyfraith Mark Allen: Diogelwch Dŵr ac Atal Boddi. Yn benodol, rwyf am ddiolch i'r ymgyrchwyr sydd wedi colli anwyliaid ac wedi cyfrannu eu sylwadau gwerthfawr i'r adroddiad ac am godi ymwybyddiaeth yn barhaus. Rwy'n falch o weld bod argymhellion y Pwyllgor yn synhwyrol i wella diogelwch dŵr a chodi ymwybyddiaeth o'r peryglon. Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad Isod.

Nodir ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod:

Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried darparu arweinyddiaeth a chydlyniad clir ar gyfer diogelwch dŵr ac atal achosion o foddï drwy bennu bod Gweinidog penodol yn arwain ar hyn. Ar hyn o bryd, mae'r cyfrifoldebau hyn yn pontio portffolios amrywiol, gan gynnwys diogelwch cymunedol, addysg ac iechyd meddwl, sy'n rhwystro'r ymdrech i symud yr agenda hon yn ei blaen.

Ymateb: Derbyn.

Bydd y Gweinidog Newid Hinsawdd yn arwain y gwaith hwn. Bydd diogelwch dŵr ac atal boddi yn cael eu cynnwys ym mhorthffolio'r Gweinidog Newid Hinsawdd i ddarparu ffocws a chydlyniad o fewn Llywodraeth Cymru ac ar draws asiantaethau partner perthnasol.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

Argymhelliad 2

Dylai Llywodraeth Cymru ffurfioli'r berthynas â Diogelwch Dŵr Cymru a darparu cyllid digonol i sicrhau bod y Strategaeth Atal Boddi yn cael ei chyflawni'n effeithiol.

Ymateb: Derbyn.

Mae'r gwaith a wnaed hyd yma gan Diogelwch Dŵr Cymru, grŵp trydydd parti sy'n cynnwys dros 30 o sefydliadau sy'n aelodau, wedi symud yr agenda diogelwch dŵr ymlaen ers 2017. Er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gyflawni'n effeithiol a gwneud y gorau o'u gwaith, gwnaeth fy swyddogion gyfarfod â Diogelwch Dŵr Cymru i drafod sut y gellir darparu cyllid i gefnogi gwaith Diogelwch Dŵr Cymru. Mae fy swyddogion yn archwilio'r dull priodol o ariannu Diogelwch Dŵr Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023-24.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod rhaglen addysg a diogelwch dŵr gydlynol mewn ysgolion, wedi'i darparu o oedran ifanc. Gall codi ymwybyddiaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â dŵr a meithrin dealltwriaeth o sut i gadw'n ddiogel neu sut i ymateb mewn damwain achub bywydau.

Ymateb: Derbyn.

Mae nifer o'n partneriaid cyflenwi a sefydliadau ehangach yn cyflwyno negeseuon Diogelwch Dŵr fel rhan o ymgyrchoedd addysg. Er enghraifft, Dŵr Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus (Baner Las), Cyfoeth Naturiol Cymru (y cod nofio yn y gwyllt), a'r Parciau Cenedlaethol.

Mae fy swyddogion yn ystyried sut i ddod â'r holl bartneriaid at ei gilydd mewn modd sydd wedi'i dargedu. Er enghraifft, gallai fod cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth mewn ysgolion yng Nghymru, drwy ofyn i Diogelwch Dŵr Cymru gydlynu a hwyluso, gan feithrin cysylltiadau agos â chyfathrebwyr addysg sydd eisoes wedi ennill eu plwyf ac sydd â chyrraedd ledled Cymru.

Mae fy swyddogion yn cysylltu â'u cydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru gyda'r bwriad o ddefnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael a gyflwynir gan y cwricwlwm ysgol newydd. Gyda mwy o rôl ar gyfer dysgu awyr agored ac amgylchedd naturiol byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gynyddu dealltwriaeth pobl ifanc o ddiogelwch dŵr. Mae'n bwysig ein bod yn edrych ymhellach nag addysg ffurfiol drwy ymgynghori â sefydliadau allanol allweddol er mwyn ystyried sut i gael yr effaith fwyaf yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Mae Tîm Addysg Dŵr Cymru yn ymgysylltu'n rhagweithiol ag ysgolion mewn ardaloedd ger cronfeydd dŵr bob gwanwyn a haf pan fo'r risg o nofio heb awdurdod ar ei uchaf. Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o'r peryglon, mae'r ddarpariaeth hefyd yn tynnu sylw at effaith ymdrochi mewn dŵr oer ar y corff dynol, ac yn defnyddio fideo o ymgyrch Un Anadl Olaf i annog newid ymddygiad. Cafodd 2,500 o ddisgyblion ar draws y sector Ysgolion Uwchradd wasanaeth penodol ar y pwnc hwn gan Dîm Addysg Dŵr Cymru yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf ac yn dilyn yr ymweliadau hyn, cadarnhaodd adborth gan Ysgol Uwchradd Cyfarthfa ym Merthyr Tudful ei fod yn cael ei ystyried yn "*un o'r gwasanaethau pwysicaf yn ystod y flwyddyn o bell ffordd*". Anfonwyd cylchlythyr dros e-bost hefyd i ysgolion pellach mewn rhai ardaloedd allweddol, gan wahodd staff i rannu'r neges ddiogelwch hanfodol gyda disgyblion drwy sianeli cyfathrebu mewnol ysgolion a'u cyfeirio at gynnwys fideo ar-lein i gefnogi'r broses. Cyfeirir hefyd at beryglon nofio heb awdurdod, ochr yn ochr â phynciau eraill, yn narpariaeth allgymorth cylch dŵr Ysgolion Cynradd Dŵr Cymru o dan arweiniad y cwricwlwm sydd fel arfer yn cael ei gyflwyno i ddegau o filoedd o ddisgyblion bob blwyddyn.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau bod eglurder ynghylch y gofynion sylfaenol o ran gwybodaeth diogelwch ac arwyddion o amgylch cyrff o ddŵr i godi ymwybyddiaeth o'r risgiau sy'n bresennol i'r rhai sy'n mynd i'r dŵr. Mae gwybodaeth weladwy o ansawdd da wedi'i nodi fel rhywbeth hanfodol, ond roedd pryder ynghylch diffyg gwybodaeth o'r fath mewn lleoliadau allweddol. Dyma un o nifer o fesurau rheoli a nodwyd fel rhan o asesiadau risg trylwyr ar gyfer cyrff o ddŵr.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.

Mae tirwedd Cymru a lleoliad dyfroedd lle gall peryglon godi yn gymhleth ac mae gan wahanol sefydliadau rolau a chyfrifoldebau amrywiol. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn dod â phartïon perthnasol at ei gilydd i ddeall y materion, gan

gynnwys yr wybodaeth a ddarperir ar hyn o bryd mewn safleoedd allweddol erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2022/23 gyda'r bwriad o ddatblygu canllawiau.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru gydlynu cysylltiadau ffurfiol rhwng Is-grŵp Mynediad at Ddŵr y Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru a Diogelwch Dŵr Cymru.

Ymateb: Derbyn.

Daeth i'n sylw bod Is-grŵp Mynediad at Ddŵr y Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru (NAFW) wedi cwblhau ei waith. Fodd bynnag, bydd trafodaeth rhwng Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru yn parhau i weld os oes lle i ffurfioli cysylltiadau â Diogelwch Dŵr Cymru. Dyma brif ddiben NAFW:

- gwella ansawdd a graddau'r mynediad i gefn gwlad ac arfordiroedd Cymru.
- ymestyn y cyfleoedd i fwynhau a hamddena awyr agored cyfrifol i bawb.

Drwy ffurfioli cysylltiadau rhwng NAFW a Diogelwch Dŵr Cymru byddwn yn galluogi gwell gwybodaeth o'u profiadau blaenorol lle mae themâu a diddordebau sy'n gorgyffwrdd. Mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu bod NAFW yn gwahodd Diogelwch Dŵr Cymru i gyfarfod fforwm yn y dyfodol, i gyflwyno eu gwaith hyd yma, gan gynnwys eu strategaeth gan fod gorgyffwrdd o ran "hamddena awyr agored cyfrifol".

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, sy'n cynnwys yr holl sefydliadau perthnasol, er mwyn cyflwyno neges bwerau a chyson am ddiogelwch dŵr. Ar hyn o bryd mae cwmnïau dŵr, elusennau a sefydliadau amrywiol a theuluoedd yn gweithio'n galed i godi ymwybyddiaeth, addysgu a chyrraedd y cyhoedd i gyd. Gallai ymgyrch gydgysylltiedig fod yn fwy effeithiol a gallai sicrhau bod y neges yn gyson.

Ymateb: Derbyn.

Mae fy swyddogion yn gweithio gyda'u tîm cyfathrebu i sicrhau negeseuon llawn ac effeithiol cyn tymor y Gwanwyn/Haf 2023. Bydd hyn yn tynnu ar y negeseuon llwyddiannus o haf 2022 o dan arweiniad CNC, cwmnïau dŵr ac lechyd Cyhoeddus Cymru, er enghraifft ar sioc dŵr oer yn ystod cyfnodau o dywydd poeth.

Cynhaliwyd ymgyrch wedi'i thargedu gan Dŵr Cymru ar ddiogelwch cronfeydd dŵr yn 2022 ar draws radio, sain ddigidol, y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys Facebook, Instagram a TikTok, yn ogystal ag YouTube ac arddangosfa ddigidol. Cyplyswyd hynny â chynnwys organig parhaus ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, cysylltiadau cyhoeddus a dylanwadwyr. Roedd yna hefyd ffug ddigwyddiad yn Llandegfedd a oedd yn cynnwys cefnogaeth gan y gwasanaeth Tân ac Achub, Fforwm Diogelwch Dŵr Cymru, a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI). Cafodd y gwaith achub ei ffilmio, a chynhaliwyd cyfweiliadau gydag ITV a BBC Cymru o amgylch Diwrnod Atal Boddi y Byd. Fe wnaethant hefyd wahodd dylanwadwyr a rannodd eu cynnwys yn eang, gan arwain at 53,000 wedi gwyllo ar draws TikTok ac Instagram a bron i 14,000 wedi hoffi'r cynnwys.

Bydd cydlynu ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus yn rhan allweddol o friff Diogelwch Dŵr Cymru i ddod â rhanddeiliaid ynghyd i drafod a chytuno ar sut y gellir cyflwyno neges bwerau a chyson am ddiogelwch dŵr, gydag ymwybyddiaeth o strategaethau ac amseru gwaith cyfathrebu ei gilydd.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.